OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2009 Rhif 40 (Cy.12 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Un o'r gofynion ynghylch y telerau y penodir person i swydd, neu fod person yn dal swydd, yn unol ag adran 9 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (cynorthwywyr i grwpiau gwleidyddol) yw bod cyfradd y tâl blynyddol ar gyfer y swydd yn llai na £13,500 neu'n swm uwch yn ôl yr hyn a bennir drwy Orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu mai'r gyfradd dâl flynyddol fydd y mwyafswm a bennir o bryd i'w gilydd gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol fel yr un sy'n gymwys i bwynt 44 ar y golofn gyflog ar eu graddfeydd cyflog ar gyfer swyddogion llywodraeth leol.

O ran awdurdodau lleol yng Nghymru, dirymir Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) 1995.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2009 Rhif 40 (Cy. 12)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009

*Gwnaed* *14 Ionawr 2009*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *19 Ionawr 2009*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 9(4) a 9(4A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Ebrill 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cyd-gyngor Cenedlaethol" *("the National Joint Council")* yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol;

ystyr "Cynllun y Cyd-gyngor Cenedlaethol" *("the National Joint Council's Scheme")* yw Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol; ac

---

(**1**) 1989 p.42.

(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(O.S. 1999/672) a paragraff 30(1) a (2)(a) o Atodlen 11 i y Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

ystyr "y Ddeddf" *("the Act")* yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

**3.**—(1) Y pwynt a bennir at ddibenion adran 9(4)(a) o'r Ddeddf yw pwynt 44 ar y golofn gyflog ar y graddfeydd cyflog ar gyfer swyddogion awdurdod lleol a ymgorfforir yng Nghynllun y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

(2) Y swm sy'n cyfateb i'r pwynt a bennir ym mharagraff (1) yw'r swm hwnnw a gyhoeddir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol o bryd i'w gilydd o ran swyddi llawnamser o dan awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr.

**Dirymu**

**4.** I'r graddau y mae'n gymwys i awdurdodau perthnasol yng Nghymru, dirymir Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl)1995(**1**).

*Brian Gibbons*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

14 Ionawr 2009

(**1**) O.S. 1995/2456.